Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Pwyllgor Menter a Dysgu

# Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org

**Gwasanaeth y Pwyllgor**
Dr Kathryn Jenkins – Clerc y Pwyllgor
Daniel Collier – Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Michael Lewis – Swyddog Cymorth i'r Pwyllgor

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
Anne Thomas – Arbenigwraig y Pwyllgor

Gellir cael copïau caled pellach o'r adroddiad hwn a chopïau fformat amgen oddi wrth:


Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Gwasanaeth y Pwyllgor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffon: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: enterprise.learning.comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**Pwyllgor Menter a Dysgu**

# Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru

**Gorffennaf 2008**

# Y Pwyllgor Menter a Dysgu



Gareth Jones
Cadeirydd
Aberconwy



Christine Chapman
Cwm Cynon



Jeff Cuthbert
Caerffili



Andrew R T Davies
Canol De Cymru



Huw Lewis
Merthyr Tudful
a Rhymni



David Melding
Canol De Cymru



Sandy Mewies
Delyn



Janet Ryder
Gogledd Cymru



Kirsty Williams
Brycheiniog
a Sir Faesyfed

## Rhagair y Cadeirydd

Pan sefydlwyd y Pwyllgor Menter a Dysgu flwyddyn yn ôl, fe ymrwymodd yr Aelodau i geisio torri tir newydd wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. Yr oeddem am wneud dinasyddion Cymru yn ganolog i'n gwaith craffu trawsbynciol ac amhleidiol a gweithio mewn ffyrdd mwy hyblyg ac agored wrth gasglu tystiolaeth. Y mae'r adroddiad hwn yn ffrwyth ein hymgais gyntaf i wneud hynny.


Fis Gorffennaf y llynedd fe etholodd y Pwyllgor Grŵp Rapporteur i ymgymryd ag ymchwiliad i'r cymorth sydd ar gael i bobl ddyslecsig yng Nghymru. Etholwyd pedwar i wneud y gwaith, sef Alun Cairns, Jeff Cuthbert, Janet Ryder a Kirsty Williams. Y mae'r cyfarfodydd a'r ymweliadau a restrir yn Atodiad A yn brawf o'u hymroddiad.

Ceir deg o argymhellion yma. O'u derbyn a'u gweithredu fe ellid gwneud gwahaniaeth mawr i blant ac oedolion yng Nghymru sy'n ymdopi ag anawsterau darllen, sillafu ac ysgrifennu. Mae'r adroddiad yn nodi'r angen am ddiffiniad safonol fel y gellir cyflwyno rhagor o gysondeb wrth sgrinio ac asesu, ac yn arbennig bod angen asesu plant mor gynnar â Blwyddyn 2 a rhoi rhagor o gymorth iddynt. Fe ddylai'r Llywodraeth gasglu gwybodaeth fanwl gywir swyddogol am nifer y plant ysgol sy'n dyslecsig; gan gynnwys data am nodweddion y rheini sy'n dyslecsig a data am hyd y cyfnod y mae'n rhaid i blant unigol aros i gael apwyntiad i weld seicolegydd addysg. Y mae'r grŵp wedi gwneud argymhellion am hyfforddi athrawon a staff ysgol eraill ac am sicrhau bod profion sgrinio, profion asesu a chymorth ar gael yn ddwyieithog –

fe ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi rhagor o adnoddau i ateb y galw. Fe ddysgodd y grŵp am amryw o raglenni a dulliau oedd o fudd i'r rhai sy'n ymdopi â dyslecsia ac yn argymell y dylid comisiynu prosiect annibynnol i ymchwilio i'r rhain. Yn arbennig, mae'r grŵp am i'r Llywodraeth gomisiynu astudiaeth beilot o *Fast ForWord*®.

Yr wyf am ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd at waith y grŵp ac at yr adroddiad hwn – i bob unigolyn ac i bob corff a fu'n fodlon rhoi o'u hamser i gynnig eu harbenigedd a'u cyngor, ac i'r rhai a drafododd eu profiadau mor agored. Hoffwn ddiolch hefyd i Arbenigwraig y Pwyllgor a Staff Gwasanaeth y Pwyllgor am eu cymorth.

Rwyf yn rhagweld y bydd ein hadroddiad yn cael derbyniad brwd ac y bydd darllen eang arno. Yr wyf yn cymeradwyo'r adroddiad i'r Cynulliad ac i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Edrychaf ymlaen at gael ei hymateb maes o law.



**Gareth Jones AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu**

Gorffennaf 2008

# Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia



**Aelodau'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia o'r chwith i'r dde: Janet Ryder AC, Alun Cairns AC, Jeff Cuthbert AC, a Kirsty Williams AC**

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Diffinio dyslecsia | 3 |
| 3. Damcaniaethau am ddyslecsia | 10 |
| 4. Adnabod anawsterau darllen, ysgrifennu a sillafu'n gynnar | 15 |
| 5. Ystadegau manwl gywir am ddyslecsia | 18 |
| 6. Athro/athrawes arbenigol hyfforddedig ym mhob ysgol / ysgolion cyfeillgar at ddyslecsia | 20 |
| 7. Adnoddau Cymraeg | 26 |
| 8. Y mathau o gymorth sydd ar gael | 29 |
| 9. Yr angen i gynnal astudiaethau gwerthuso annibynnol | 42 |
| 10. Crynodeb o'r argymhellion | 48 |
| Atodiad A: Gwaith y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia | 53 |
| Atodiad B: Gwefannau defnyddiol | 55 |
| Atodiad C: Y polisi yn Lloegr | 57 |
| Atodiad D: Grŵp Cyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol | 59 |
| Atodiad E: Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Ddyslecsia | 61 |

## 1. Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod cychwynnol ar 11 Gorffennaf 2007, penderfynodd y Pwyllgor Menter a Dysgu sefydlu grŵp rapporteur trawsbleidiol i ystyried dulliau o drin dyslecsia yng Nghymru. Aelodau'r grŵp oedd: Alun Cairns AC; Jeff Cuthbert AC; Janet Ryder AC a Kirsty Williams AC.

Yn ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar 19 Gorffennaf 2007, cytunodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia ar y Cylch Gorchwyl a ganlyn:

> Ystyried dulliau traddodiadol, arloesol a newydd o drin dyslecsia a chyflwyno adroddiad ac argymhellion gerbron y Pwyllgor Menter a Dysgu erbyn diwedd tymor yr hydref 2007

Cynhaliodd y grŵp 18 o gyfarfodydd ac ymweliadau rhwng mis Awst 2007 a mis Ebrill 2008, gan gynnwys pedwar cyfarfod anffurfiol ym Mae Caerdydd â phobl sy'n rhoi cymorth proffesiynol i'r rheini sydd â dyslecsia; naw ymweliad allanol, er enghraifft ag Ysgol Gyfeillgar at Ddyslecsia, a dau gyfarfod ag oedolion a phlant dyslecsig a rhieni plant dyslecsig.

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddyslecsia[1] (mis Tachwedd 2007), clywodd y Pwyllgor Menter a Dysgu dystiolaeth am y cymorth a roddir i blant ac oedolion â dyslecsia gan yr Athro David Reynolds, Prifysgol Plymouth, yr Athro Angela Fawcett, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Plant, Prifysgol Abertawe ac Ann Cooke, Yr Uned Dyslecsia, Prifysgol Bangor. [2]

[1] Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddyslecsia: 5 – 11 Tachwedd 2007
[2] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

Cyhoeddodd y pwyllgor adroddiad dros dro ar 12 Rhagfyr. Gosodwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad a'r argymhelliad oedd bod y grŵp yn parhau â'i waith ac yn cyhoeddi adroddiad terfynol pan fydd yn briodol.

Mae rhestr o weithgareddau'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia ynghlwm yn Atodiad A.

Dymuna'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia ddiolch i bawb a anfonodd wybodaeth iddo am ddyslecsia yn ogystal â'r holl bobl a roddodd o'u hamser i gyfarfod â'r Grŵp Rapporteur.

## 2. Diffinio dyslecsia

Daw'r gair 'dyslecsia' o'r Roeg 'dys-' sy'n golygu anhawster â, a '-lexia', sy'n golygu geiriau neu iaith.[3]

Un o'r problemau cyntaf a gododd wrth i'r grŵp gasglu tystiolaeth oedd nad oedd diffiniad safonol ar gyfer dyslecsia. Cytunai mwyafrif y tystion fod dyslecsia'n ymwneud ag anawsterau darllen, ysgrifennu a sillafu; mae rhai'n credu bod yr anawsterau hyn yn codi oherwydd problemau â'r cof tymor byr; mae eraill yn dweud eu bod yn codi oherwydd ymwybyddiaeth ffonolegol wan; nam ar y synhwyrau yw'r broblem yn ôl rhai, nam serebelaidd ydyw yn ôl eraill, a chred rhai na ddylid ystyried dyslecsia fel salwch y mae angen ei drin. Clywodd y grŵp dystiolaeth fod y dulliau a'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth gynnal asesiadau a phrofion yn amrywio o ardal i ardal yng Nghymru.

**Scott Quinnell**

Cyfarfu'r Grŵp Rapporteur â Scott Quinnell, cyn chwaraewr rygbi dros Gymru, a bu'n disgrifio'i brofiad personol o ddyslecsia.

Mae Scott [4] hefyd wedi'i ddyfynnu'n dweud wrth ddisgyblion Ysgol Penweddig:

"Roeddwn i'n arfer casáu'r ysgol. Doeddwn i ddim yn deall beth roedd yr athrawon yn ceisio'i ddysgu i mi. Byddai'r athrawon yn fy ngalw i'n dwp ac yn ddi-glem gan nad oeddynt yn deall."

---

[3] Yr Adran Plant, Teulueodd ac Ysgolion. A Framework for Understanding Dyslexia, http://publications.teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/AFDD2MIG236.pdf

[4] Gwefan newyddion BBC, http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/mid/6136182.stm a gwefan Dyslexia Adults Link http://www.dyslexia-adults.com/a65.html

“Byddent yn dweud nad oeddwn i’n gwneud unrhyw ymdrech, ond doeddwn i ddim yn gallu deall y wybodaeth na’i chofio, ac nid oeddwn yn deall pam nad oeddwn i’n gallu cofio.”

Roedd Quinnell yn cofio sut y byddai’n arfer eistedd yng nghefn yr ystafell ddosbarth yn yr ysgol, yn methu deall yr hyn a oedd yn cael ei ysgrifennu ar y bwrdd du. Ychwanegodd y byddai yn ei ddagrau ar adegau.

Soniodd un rhiant a ysgrifennodd at y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia sut y disgrifiodd yr anawsterau yr oedd ei phlentyn yn eu cael yn Gymraeg ac yn Saesneg, wrth seicolegydd addysg:

> Dywedais wrtho ei fod yn cymysgu rhwng ‘p’ a ‘q’, ‘b’ a ‘d’ a ‘g’.
>
> Roedd yn darllen mewn ffordd drwsgl.
>
> Roedd yn iawn yn y Gymraeg ond daeth y problemau i’r amlwg pan ddechreuodd ddarllen Saesneg. (Mae’n defnyddio ‘u’ yn lle ‘y’ mewn rhai geiriau a bydd yn hepgor unrhyw lythrennau dwbl. Fodd bynnag, mae’n hawdd sillafu yn Gymraeg felly nid yw hynny’n gymaint o broblem. Hefyd, wrth ddarllen, mae’r llythrennau i gyd yn swnio’r un fath bob amser ac nid yw hynny, wrth gwrs, yn wir yn Saesneg). Y mae bob amser wedi gallu darllen geiriau hir yn well na geiriau byr oherwydd rwy’n amau ei bod yn hawdd cymysgu llawer o eiriau bach (gall ‘at’ fod yn ‘a’, ‘ân, .as. etc) ond mae gair hir yn haws ei adnabod.
>
> Dywedais hefyd ei fod newydd gymryd y brif ran yn . . . ac er iddo ddysgu’r

holl ganeuon ar ei gof yn berffaith, nid yw'n gallu darllen y geiriau ar bapur.

Dywedodd ei athrawes ei fod yn methu geiriau wrth gopïo a'i fod yn ysgrifennu rhifau o chwith. Dywedodd hefyd fod hyn i gyd yn peri gofid iddo a'i fod yn fwyfwy amharod i ateb.

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu,[5] helpodd yr Athro David Reynolds i bennu ffigur ar gyfer nifer y bobl sydd â dyslecsia:

> Rydym yn amau bod tua 10 y cant o'r boblogaeth yn dioddef o ddyslecsia er, mae'n amlwg, byddai hyn yn dibynnu ar yr union ddiffiniad a ddefnyddir.

**Yr anawsterau sydd ynghlwm wrth geisio diffinio dyslecsia**

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu,[6] disgrifiodd Ann Cooke o Uned Dyslecsia Prifysgol Bangor rai o'r anawsterau sydd ynghlwm wrthgeisio cytuno ar un diffiniad:

> **Ms Cooke:** Mae'n anodd diffinio dyslecsia oherwydd, fel y dywedais yn fy mhapur, mae'n dibynnu i bwy rydych chi'n darparu'r diffiniad. Gallwch geisio cynnwys elfen wyddonol yn y diffiniad, gallwch ddweud pa fath o anawsterau y mae'r plentyn yn eu hwynebu a gallwch ddweud pa fathau o anawsterau ychwanegol sydd – sef yr hyn y gellid eu galw'n arwyddion cysylltiedig. Os byddwch yn cynnwys popeth bydd y diffiniad yn llenwi tudalennau. Os ceisiwch ei gwtogi, fodd bynnag,

[5] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

[6] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

> gall hynny greu problemau oherwydd bydd y sawl sy'n ei ddarllen yn dweud, 'Dydi hynny ddim yn fy helpu i'.

Rhybuddiodd hefyd rhag creu diffiniadau a oedd yn arwain at oedi cyn helpu'r rheini yr oedd angen cymorth arnynt: Cytunodd yr Athro Fawcett gan ychwanegu:

> O ran creu diffiniad, fel y dywed Ann, mae'n dibynnu am beth rydych yn chwilio. Os ydych yn chwilio am rywbeth cryno i helpu'r athro i adnabod problem ac i gymryd camau pendant i ddarparu cymorth, mae'n debyg bod hynny'n wahanol i'r math o ddiffiniad a byddech yn ei gynnig i bobl sydd yn chwilio am gymorth eu hunain – rhieni a phlant sydd am ddeall mwy. Byddai athrawon, mae'n debyg, yn ei ddiffinio o safbwynt llythrennedd, er ei fod yn llawer mwy eang na hynny. [7]

## Rhai diffiniadau o ddyslecsia

### Diffiniad yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

Mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn disgrifio dyslecsia fel anhawster dysgu penodol sydd, fel dyscalciwla a dyspracsia, yn dod o dan ymbarél Anghenion Gwybyddol ac Anghenion Dysgu, un o'r pedwar maes angen a nodwyd yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, a gyhoeddwyd yn 2001.[8]

Er nad oes unrhyw ddiffiniad penodol ar gyfer dyslecsia, dyma'r diffiniad y mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn ei ddefnyddio:

---

[7] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

[8] Gwefan Teachernet, Cod Ymarfer AAA y DU, http://www.teachernet.gov.uk/_doc/3724/SENCodeOfPractice.pdf

> Dyslecsia - er y gall disgyblion sydd â dyslecsia ddysgu'n rhwydd mewn rhai meysydd cwricwlaidd, cânt anhawster amlwg a pharhaus wrth geisio darllen, ysgrifennu a sillafu'n gywir neu'n rhugl. Mae'n bosibl bod eu llawysgrifen, eu hatalnodi a'u gallu i ddarllen a deall yn wan a'u bod hefyd yn cael trafferth canolbwyntio a threfnu a chofio dilyniant o eiriau. Mae'n bosibl eu bod yn cam-ynganu geiriau cyffredin neu'n ynganu llythrennau a synau mewn geiriau o chwith.

**Diffiniad Cymdeithas Seicolegol Prydain**

Cytunodd Cymdeithas Seicolegol Prydain ar ddiffiniad yn 1999,[9] a chafodd hwn ei ddiweddaru yn 2005. Caiff y diffiniad ei ddefnyddio gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru:

> Mae dyslecsia'n amlwg pan fydd y gallu i ddarllen a/neu sillafu cywir a rhugl yn datblygu'n anghyflawn iawn neu gyda chryn anhawster. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddysgu llythrennedd ar 'lefel geiriau' ac yn awgrymu bod y broblem yn ddifrifol ac yn barhaus er bod y disgybl yn cael cyfleoedd dysgu priodol. Mae'n rhoi sylfaen i broses o asesu fesul cam drwy addysgu.
>
> [Cymdeithas Seicolegol Prydain 1999; diweddarwyd 2005]

**Diffiniad Cymdeithas Dyslecsia Prydain**

Caiff diffiniad Cymdeithas Dyslecsia Prydain hefyd ei ddefnyddio gan rai awdurdodau lleol:

[9] Cymdeithas Seicolegol Prydain, *Dyslexia, Literacy and Psychological Assessment*, http://www.bps.org.uk/publications/newsletters-and-periodicals/decp-dyslexia.cfm

Cyfuniad o alluoedd ac anawsterau yw dyslecsia sy'n effeithio ar y broses o ddysgu un neu ragor o'r canlynol: darllen, sillafu ac ysgrifennu. Mae'n gyflwr parhaol. Gellir nodi gwendidau ychwanegol yn y meysydd a ganlyn: cyflymder prosesu gwybodaeth, cof tymor byr, sgiliau trefnu, sgiliau dilyniant, yr iaith lafar a sgiliau symud. Mae'n bosibl y bydd anawsterau o ran canfyddiad clywedol a/neu weledol. Mae cysylltiad penodol â meistroli a defnyddio iaith ysgrifenedig, a gall hynny gynnwys defnyddio llythrennau'r wyddor, rhifau a symbolau cerddorol.

Gall pobl fod yn ddyslecsig er nad yw eu gallu deallusol yn is na'r cyffredin ac er iddynt gael addysg arferol. Mae'n rhan o gyfansoddiad person ac nid yw'n ddibynnol ar gefndir economaidd-gymdeithasol nac ieithyddol.

**Y gwahaniaethau rhwng ardaloedd Awdurdodau Lleol**

Clywodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia fod problemau'n codi oherwydd nad oes cytundeb cyffredin ynglŷn â "diffiniad gweithredol" o ddyslecsia y dylid ei ddefnyddio. Er enghraifft, oherwydd bod awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio gwahanol ddiffiniadau, mae'r gwasanaethau a ddarperir yn wahanol hefyd, yn enwedig mewn perthynas â phlant ysgol.

Mae'r Uned Dyslecsia ym Mhrifysgol Bangor yn darparu gwasanaethau i dri awdurdod lleol. Yn ystod ei ymweliad, clywodd y Grŵp Rapporteur dystiolaeth gan rieni plant â dyslecsia a oedd wedi cael profiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, er enghraifft gwahanol feini prawf ar gyfer cael cymorth, lefelau amrywiol o gymorth, a gwahanol feini prawf ar gyfer dod â gwasanaeth i ben.

Drwy gyfeirio at ei brofiadau personol, nododd un rhiant i blentyn â dyslecsia nifer o broblemau sylweddol mewn gwahanol rannau o Gymru:

“Mae Awdurdodau Addysg Lleol

- yn mabwysiadu polisi anysgrifenedig i wrthod ceisiadau am gymorth yn gyffredinol er mwyn lleihau nifer y plant sy’n cael Datganiad Statudol
- yn gwrthod glynu wrth rai o’r amserlenni a nodir yn y Cod AAA er mwyn gohirio neu lesteirio’r broses o roi Datganiadau Statudol e.e. penderfynu cynnal asesiad statudol a pheidio ag oedi cyn cynnal yr asesiad
- yn gwrthod derbyn casgliadau ac argymhellion adroddiadau a baratowyd gan Seicolegwyr Addysg preifat
- yn gwrthod derbyn bod manteision i hyfforddiant arbenigol gan Dyslexia Action
- yn ymateb yn anfoddhaol i geisiadau am wybodaeth gan rieni plant sydd â phroblemau’n ymwneud â dyslecsia
- yn creu eu polisïau eu hunain o ran pennu sgôr sy’n arwain at Ddatganiadau Statudol a mathau eraill o gymorth addysgol ychwanegol. Nid oes cysondeb ym mholisïau’r AALLau ac, oherwydd hynny, mae’r broses bellach yn ‘loteri cod post’.”

Mae’r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia yn gwybod o’r dystiolaeth a gafwyd nad yw’n hawdd cytuno ar un diffiniad o ddyslecsia. Dywedodd y tystion efallai bod

angen gwahanol ddiffiniadau ar gyfer gwahanol ddibenion a gallai diffiniad byr fod yn rhy gyffredinol i fod yn ddefnyddiol mewn rhai achosion.

Fodd bynnag, clywodd y Grŵp Rapporteur hefyd dystiolaeth bod y ffaith nad oes un diffiniad clir ar gael yn arwain at anghysondebau sylweddol o ran lefelau'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'n drysu pobl sydd am gael gwybod a oes dyslecsia ganddynt ai peidio. Mae hefyd yn achosi pryder a straen i rieni sydd am wybod ai dyslecsia sy'n gyfrifol am anawsterau eu plentyn ac mae'n ei gwneud yn anos iddynt ganfod pa gymorth yn union sydd ar gael i'w plentyn.

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol Cymru gytuno ar ddiffiniad safonol o ddyslecsia er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru o ran sgrinio, asesu a darparu gwasanaethau ar gyfer dyslecsia a gaiff eu hariannu gan awdurdodau lleol.**

## 3. Damcaniaethau am ddyslecsia

Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, dywedodd yr Athro Fawcett, 'Dyslecsia yw un o feysydd mwyaf dadleuol byd addysg, nid yn unig oherwydd ymroddiad brwd llawer o'r rheini sy'n ymgyrchu am well darpariaeth ar gyfer pobl â dyslecsia, ond hefyd oherwydd ei fod yn faes gwirioneddol rhyngddisgyblaethol a bod cymaint o wahanol amcanion'. Synnwyd y grŵp rapporteur gan faint y dystiolaeth wrthgyferbyniol a

gyflwynwyd a chan gryfder barn pobl ar y ddwy ochr i'r ddadl dros ddefnyddio dulliau traddodiadol a dulliau mwy diweddar o ymdrin â dyslecsia.

Cafodd rhai o'r prif ddamcaniaethau a ddefnyddir i egluro dyslecsia eu crynhoi ar gyfer y Pwyllgor Menter a Dysgu ym mhapur yr Athro Fawcett. [10] Dyma ambell ddyfyniad:

**Nam ffonolegol**

> Dyma'r ddamcaniaeth fwyaf datblygedig am ddyslecsia a'r ddamcaniaeth sy'n cael y gefnogaeth fwyaf. Mae cytundeb unfrydol bod problemau'n ymwneud â ffonoleg yn gysylltiedig â dyslecsia ond, fodd bynnag, mae'n dod yn amlwg nad dyma'r unig broblem. Sgil yw ffonoleg sydd wrth wraidd y gallu i ddadansoddi iaith lafar ac ysgrifenedig, gan hollti neu rannu geiriau. Felly dysgir yn gyntaf bod y gair 'cath' yn dechrau ag 'c' ac mai 'ath' yw gweddill y gair, ac yna dysgir mai'r synau unigol (ffonemau) yw c-a-th.  Defnyddir ymwybyddiaeth ffonolegol hefyd wrth glywed sain (ffonem) a'i throsi'n llythyren sy'n ei chynrychioli (graffem).[11]

**Nam ar y synhwyrau**

> Mae'r ddamcaniaeth hon yn ehangach na'r ddamcaniaeth sy'n seiliedig ar nam ffonolegol, oherwydd mae'n bosibl y gallai egluro'r nam gweledol a chlywedol sy'n gysylltiedig â dyslecsia. Cyflwynwyd y syniad o nam ar y gallu i brosesu'n gyflym gan Tallal yn y DU, a Stein

[10] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, Papur gan yr Athro Angela Fawcett, EL(3) 09-07 (p2): http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=63637&ds=11/2007

[11] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, Papur gan yr Athro Angela Fawcett, EL(3) 09-07 (p2): http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=63637&ds=11/2007

a'i grŵp yn Rhydychen ddatblygodd y syniad o nam magnogellog gweledol.

Honnai Tallal a'i chydweithwyr (1993) fod plant â dyslecsia, fel plant ag anhwylder ieithyddol, yn arafach yn prosesu synau sy'n newid yn gyflym. Caiff hyn ei brofi drwy ddefnyddio tonau uchel ac isel, neu'r tonau 'ba' a 'da', sy'n wahanol dim ond yn y milieiliadau cyntaf. Ni all plant â dyslecsia wahaniaethu rhwng y synau os cânt eu cyflwyno'n agos at ei gilydd, a golyga hyn eu bod yn debygol o gael problemau gyda'u hymwybyddiaeth ffonolegol.

Ymddengys y gellir priodoli symptomau rhai plant â dyslecsia i broblemau magnogellog gweledol, megis llythrennau aneglur a llythrennau sy'n symud. Fodd bynnag, mae'n glir erbyn hyn nad y system magnogellog sydd i gyfrif am allu'n system weledol i ymateb i newidiadau (Stein, 2000). Byddai nam magnogellog yn effeithio ar bob mathau o brosesu cyflym, a all fod yn anodd i blant dyslecsig oherwydd ei bod yn anoddach i unrhyw un brosesu deunyddiau'n gyflym.[12]

**Cyflymder prosesu**

Nododd Wolf a Bowers (1999) ddau anhawster penodol yng nghyswllt dyslecsia; ffonoleg a chyflymder prosesu. Plant sydd â'r ddau anhawster hwn, sef anhawster o ran cyflymder a seinyddiaeth sydd â'r problemau mwyaf.

Mae tystiolaeth bod gan blant dyslecsig broblemau cyflymder ym mhob maes bron. Mae profion 'Enwi Awtomatig Cyflym' (RAN - Denckla a

[12] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, Papur gan yr Athro Angela Fawcett, **EL(3) 09-07 (p2):** http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=63637&ds=11/2007

Rudel, 1976), yn adnabod problemau cyflymder drwy ofyn i blentyn enwi lluniau syml (neu liwiau) yn gyflym. Gwelir problemau hyd yn oed pan nad yw'r dasg yn ymwneud ag iaith, ac mae plant â dyslecsia yn arafach wrth bwyso botwm i ddewis rhwng sain uchel a sain isel. (Nicolson a Fawcett, 1994), Mae patrymau ymenyddol yn dangos y gellir priodoli hyn i system prosesu gwybodaeth glywedol ganolog araf (Fawcett et al., 1993). O safbwynt addysgol, mae hyn yn golygu bod angen mwy o amser ar blant â dyslecsia i ddarllen gair sy'n gyfarwydd iddynt (van der Leij a van Daal,1999) a gall hyn arwain at strategaeth o geisio prosesu darnau mawr o lythrennau wrth ddarllen, yn hytrach na cheisio rhannu'r gair yn ffonolegol er mwyn darllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r dull hwn yn dibynnu'n sylweddol ar y cof gweithgar, ac mae'n cyfyngu ar nifer y geiriau newydd y gellir eu darllen.[13]

## Nam ar y serebelwm

Ar ddechrau'r 1990au, nododd grŵp Sheffield broblemau difrifol gydag amrywiaeth eang o sgiliau, gan gynnwys cydbwysedd (Fawcett a Nicolson, 1992; Nicolson a Fawcett, 1990); sgiliau symud (Fawcett a Nicolson, 1995b); sgiliau ffonolegol (Fawcett a Nicolson, 1995a) a phrosesu cyflym (Fawcett a Nicolson, 1994,b). Dim ond rhai o'r sgiliau hyn oedd yn seiliedig ar iaith, gan awgrymu nad problemau ffonolegol oedd yn gyfrifol am yr holl broblemau'n ymwneud â dyslecsia. Roedd y rhan fwyaf o blant yn dangos problemau cyffredinol, yn hytrach na bod

[13] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, Papur gan yr Athro Angela Fawcett, **EL(3) 09-07 (p2):** http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=63637&ds=11/2007

gwahanol broffiliau'n awgrymu is-deipiau (Nicolson a Fawcett, 1995a; Nicolson a Fawcett, 1995b) gan gefnogi'r hypothesis bod awtomasiwn diffygiol yn arwain at ddyslecsia (Nicolson a Fawcett, 1990), sy'n honni bod plant dyslecsig yn cael trafferth meistroli unrhyw sgil a ddylai ddod awtomatig o'i ymarfer yn helaeth. Gallai'r hypothesis hwn egluro symptomau dyslecsia mewn sgiliau ffonolegol, sgiliau darllen a sgiliau eraill.

Mae problemau gyda sgiliau symud ac awtomasiwn yn awgrymu problem gyda'r serebelwm, rhan o waelod yr ymennydd sy'n gysylltiedig â sgiliau symud. Mae tystiolaeth glir yn awr fod cysylltiad rhwng y serebelwm nid yn unig â sgiliau symud ond hefyd a rhannau ieithyddol Broca, a'i fod yn gysylltiedig â sgiliau ieithyddol a gwybyddol, gan gynnwys cysylltiad penodol â darllen (Fulbright et al., 1999). Dangosodd plant dyslecsig amrywiaeth o arwyddion a oedd yn nodweddiadol o nam ar y serebelwm (Fawcett a Nicolson, 1999; Fawcett, Nicolson a Dean, 1996) gyda phroblemau'n ymwneud â chyflwr y cyhyrau a chydbwysedd i'w gweld yn 80-90% o'r plant a brofwyd. Cafwyd tystiolaeth uniongyrchol o nam serebelaidd o ganlyniad i astudiaeth sgan PET pan welwyd nad oedd ymennydd oedolion dyslecsig yn dangos y patrwm gweithgaredd arferol wrth gyflawni tasg a oedd yn galw am ddilyniant o symudiadau. Dim ond 10-20% o'r lefel gweithgaredd disgwyliedig a ddangoswyd o'i gymharu â'r grŵp safonol. [14]

[14] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, Papur gan yr Athro Angela Fawcett, **EL(3) 09-07 (p2):** http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=63637&ds=11/2007

## 4. Adnabod anawsterau darllen, ysgrifennu a sillafu'n gynnar

Yn ddieithriad, pwysleisiodd pawb a siaradodd â'r Grŵp Rapporteur bwysigrwydd a manteision adnabod yn gynnar anawsterau darllen ac arwyddion posibl dyslecsia ymhlith disgyblion ysgol. Yng nghyswllt rhoi profion dyslecsia i blant, roedd barn y tystion ar yr isafswm oed yn amrywio o 4 i 7 oed, ond roedd llawer yn cytuno y gall athrawon ysgolion cynradd, fel arfer, adnabod y disgyblion hynny sy'n cael mwy o drafferth na'u cyfoedion wrth ddysgu sgiliau darllen, sillafu ac ysgrifennu sylfaenol pan fyddant ym Mlwyddyn 1 (6 oed). Cytunwyd bod modd cadarnhau diagnosis athrawon drwy brofion sgrinio.

> **Yr Athro Fawcett:** Mae angen i ni ddarganfod y plant cyn iddynt fethu a rhoi rhyw fath o gymorth iddynt yn fuan. Gan hynny, mae oedran yn elfen dyngedfennol. Mae angen i ni edrych ar blant chwech a saith oed, a rhoi cymorth i'r rheini sy'n methu. Gallaf siarad ag awdurdod oherwydd fy ngwaith ar sgrinio ac ymyrraeth gynnar, a hefyd gan fy mod yn rhiant i fachgen a gafodd ddiagnosis 25 o flynyddoedd yn ôl pan oedd yn 5 oed. Gan hynny, rwy'n gwybod y gall y canlyniadau fod yn ardderchog os yw cymorth ar gael yn ddigon cynnar. [15]

Dywedodd y rhan fwyaf o dystion y byddai'r arbedion a wnaed oherwydd lefel isel y cymorth y byddai ei angen pan fyddai'r disgyblion yn hŷn yn gwrthbwyso costau sgrinio a darparu cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar.

[15] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

Clywodd y grŵp rai sylwadau gwrthgyferbyniol am fanteision sgrinio pob plentyn;

Roedd rhai cyfranwyr, gan gynnwys aelod o Grŵp Trawsbleidiol Dyslecsia’r Alban, o blaid rhaglen sgrinio gyffredinol. Heb sgrinio cyffredinol, roeddynt yn pryderu y byddai rhai plant dyslecsig yn syrthio drwy’r rhwyd a bod y system bresennol yn dibynnu ar allu bob athro neu athrawes i sylwi ar y plant hynny sy’n dechrau dangos bod ganddynt anawsterau.

Fodd bynnag, dadl mwyafrif y tystion, er enghraifft, Prosiect Dyslecsia Cymru, oedd nad oes angen rhaglen sgrinio gyffredinol ffurfiol ar gyfer dyslecsia yn ystod y blynyddoedd cynnar, ac y dylid cyfyngu’r profion sgrinio i’r plant hynny y mae eu hathrawon yn sylwi bod ganddynt anawsterau. Clywodd yr Aelodau dystiolaeth na fyddai’r profion sgrinio’n cynnig diagnosis ffurfiol o ddyslecsia ond, yn hytrach, gallent awgrymu bod plentyn yn ddyslecsig. Credai llawer o’r tystion nad oes angen diagnosis ffurfiol ar y dechrau. Clywodd y Pwyllgor y byddai cymorth ychwanegol yn cael ei roi i’r plentyn yn yr ysgol pe bai’r profion sgrinio’n cadarnhau asesiad cychwynnol yr athro neu’r athrawes. Dywedodd llawer o dystion y byddai cymorth ychwanegol, mewn nifer o achosion, yn ddigon i ymdrin â’r anawsterau ar y dechrau.

Clywodd y grŵp nad oes ond nifer fechan o ddisgyblion (tua 2 y cant) yn meddu ar symptomau sy’n gysylltiedig â dyslecsia difrifol. Dyma’r plant sy’n elwa o gael eu hasesu’n ffurfiol gan seicolegydd addysg ond roedd pryderon, fodd bynnag, a gadarnhawyd gan dystiolaeth anecdotaidd, ynglŷn â’r cyfnod hir y mae’n rhaid i blentyn aros cyn gweld seicolegydd addysg.

Clywodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia am rwystredigaeth nifer o dystion wrth iddynt geisio cael diagnosis cywir mewn da bryd.

Anfonwyd yr enghraifft a ganlyn gan riant plentyn â dyslecsia:

“Cynhaliwyd profion ar fy mab a ddangosodd ei fod yn ddyslecsig pan oedd yn 6.5 mlwydd oed. Bu’n rhaid i ni drefnu iddo gael ei brofi’n breifat oherwydd roedd yr ysgol yn gwrthod credu bod ganddo broblem. Roedd y ffaith bod gan ein mab y broblem hon yn dristwch i ni ond roedd yn rhyddhad meddwl y byddai’n awr yn cael y cymorth priodol yn yr ysgol. Rydym, fodd bynnag, wedi gorfod brwydro i gael unrhyw fath o gymorth gan y gwasanaeth addysg.”

**Argymhelliad 2**

**Clywodd y grŵp dystiolaeth sylweddol fod amseriad yr ymyrraeth i’w weld yn dyngedfennol a bod ymyrraeth gynnar yn fwy tebygol o lwyddo i godi safon plant sy’n cael anawsterau i’r un lefel â’u cyfoedion.**

**Gan hynny, mae’r Pwyllgor yn argymell bod profion sgrinio ar gyfer dyslecsia ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i bob plentyn ar ddechrau Blwyddyn 2 os yw’r athro neu’r athrawes yn nodi bod gan y plentyn hwnnw fwy o anawsterau darllen, sillafu neu ysgrifennu na’i gyfoedion.**

**Wedi hyn rhaid sicrhau cymorth ychwanegol ac ymyrraeth briodol ar gyfer y plant hynny y mae’r profion sgrinio’n dangos y gallent fod yn ddyslecsig erbyn diwedd Tymor y Nadolig ym Mlwyddyn 2.**

## 5. Ystadegau manwl gywir am ddyslecsia

Clywodd y grŵp dystiolaeth anecdotaidd fod mwy o fechgyn na merched yn tueddu i fod â dyslecsia a bod tystiolaeth yn dangos mai ffactorau genetig sy'n gyfrifol am y cyflwr. Mewn tua 50 y cant o achosion, mae'n bosibl dangos bod person wedi etifeddu'r cyflwr. Mae'r cyflwr yn effeithio ar tuag 1 o bob 10 o bobl ac mae tuag 1 o bob 4 yn achos difrifol, ond mae pob achos yn wahanol.

Mae pryder ynglŷn â gwahaniaethu yn erbyn plant sydd â chyniferydd deallusrwydd isel, sy'n cael eu hystyried yn blant ag anawsterau dysgu yn hytrach na'n blant dyslecsig.

Mae plant â dyslecsia yn aml â dyspracsia hefyd, neu'n dioddef o gyflyrau eraill fel dyscalciwla, dysgraffia neu ADHD. Teimlai'r grŵp y dylid blaenoriaethu anghenion plant yn ôl eu difrifoldeb i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol.

Ar hyn o bryd, nid yw ystadegau'r Llywodraeth, sy'n seiliedig ar gronfa ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gallu gwahaniaethu rhwng plant dyslecsig a phlant sydd ag anawsterau dysgu eraill. Caiff categorïau a diffiniadau eraill eu cynnwys pan gaiff y data blynyddol ei gasglu nesaf ond, er hyn, nid yw dyslecsia'n cael ei gynnwys fel categori ar wahân.

Roedd y wybodaeth anecdotaidd am y cyfnodau hir y mae'n rhaid aros cyn cael apwyntiad â seicolegwyr addysg yn wahanol i'r wybodaeth a gafwyd gan nifer o awdurdodau lleol. Mae'r detholiad a ganlyn yn nodweddiadol iawn o nifer o ymatebion gan awdurdodau lleol:

Pan fydd ysgol yn penderfynu bod gan blentyn ddyslecsia, bydd yn defnyddio'i dulliau ei hun i ymdrin â'r anawsterau. Os nad yw plentyn yn gwneud cynnydd caiff ei gyfeirio at y seicolegydd addysg neu'r athrawes arbenigol i gael asesiad neu gyngor pellach. Fel arfer mae'r athrawes arbenigol yn gallu gweld y plentyn cyn pen hanner tymor wedi iddo gael ei gyfeirio.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn gweithredu system dyrannu amser sy'n golygu bod ysgolion yn cael nifer benodol o ymweliadau bob tymor. Yna, bydd yr ysgol yn blaenoriaethu'r disgyblion a fydd yn cael cymorth. Bydd y seicolegydd addysg yn gweld y disgyblion cyn gynted ag y bydd yr ysgol yn eu blaenoriaethu felly does dim rhestr aros.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu gwybodaeth fanwl gywir swyddogol am nifer y plant ysgol sydd â dyslecsia; gan gynnwys data am nodweddion y rheini sydd â dyslecsia a data am hyd y cyfnod y mae'n rhaid i blant unigol aros i gael apwyntiad i weld seicolegydd addysg.**

## 6. Athro neu athrawes hyfforddedig ym mhob ysgol / Ysgolion Cyfeillgar at Ddyslecsia

Clywodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia gan rieni plant â dyslecsia a'r plant eu hunain am eu rhwystredigaeth, eu problemau a'u llwyddiant yn yr ysgol.

> Dyma sut y disgrifiodd un rhiant rai o'r anawsterau:
>
> "Ymddengys bod gagendor enfawr yn yr hyn y mae athrawon yn ei wybod a'i ddeall yng nghyswllt dyslecsia. Roedd fy merch yn ddigon ffodus i gael diagnosis pan oedd ym mlwyddyn 2 (rwy'n rhiant penderfynol iawn) ond ers hynny mae pob athro neu athrawes wedi dweud y drefn wrth fy merch am beidio â dysgu ei rhestr sillafu wythnosol. Er i mi geisio egluro wrthynt, nid ydynt yn deal y gallai dreulio oriau'n ceisio dysgu sut i sillafu geiriau ond fyddai hi'n dal ddim yn gallu eu dwyn i gof. Dim ond un enghraifft fechan iawn o'r diffyg dealltwriaeth yw hon - rhaid i addysgwyr dderbyn bod hon yn broblem wirioneddol i rai plant. Ymddengys mai ychydig iawn y mae hyn yn oed athrawon sydd newydd gymhwyso'n ei ddeall am Anawsterau Dysgu Penodol."

Ysgrifennodd rhiant arall at y Grŵp Rapporteur yn crynhoi'r problemau a gafodd wrth geisio cynorthwyo plant â dyslecsia ac yn awgrymu sut y gellid gwella'r sefyllfa.

"Credaf mai dyma'r prif broblemau gyda'r system bresennol:

Ysgolion Cynradd

- nid ydynt yn profi plant ifanc fel mater o drefn i weld a oes problemau
- nid yw athrawon yn ymwybodol o symptomau a phroblemau dyslecsia
- nid yw athrawon AAA nac athrawon cyffredin yn cael digon o hyfforddiant mewn dulliau dysgu arbenigol i helpu plant â dyslecsia
- mae ysgolion yn cael eu hamau o gynllwynio ag AALlau i osgoi'r label 'dyslecsia' ac i guddio problemau dyslecsia rhag rhieni oherwydd y goblygiadau o ran adnoddau."

Dyma sut y mae'n awgrymu y dylid ymdrin â'r problemau hyn:

- "mae angen hyfforddi athrawon i adnabod symptomau dyslecsia ac i ddeall y cyflwr
- mae angen rhagor o athrawon sy'n gallu rhoi addysg arbenigol i blant â dyslecsia"

a . . .

- "chaniatáu i rieni  dalu am hyfforddiant arbenigol i ddisgyblion â dyslecsia yn ysgolion y wladwriaeth."

Soniodd llawer o dystion hefyd am y manteision sylweddol a oedd ynghlwm wrth gael athro arbenigol hyfforddedig ym mhob ysgol.

> **Ms Cooke:** Y trydydd pwynt yw bod angen i ni hyfforddi athrawon, nid yn unig ar gyfer gwaith arbenigol, ond er mwyn sicrhau bod rhywun ym mhob ysgol – a gall hyn fod yn anodd oherwydd niferoedd ansefydlog – sydd wedi bod ar gwrs dyslecsia. Nid cwrs Hyfforddiant mewn Swydd sydd gennyf mewn golwg, gydag athrawon yn cael hyfforddiant am efallai awr yr wythnos, neu am sesiwn tair awr. Mae angen cwrs hyfforddi lle mae disgwyl i athrawon ddysgu dan oruchwyliaeth, gan fynd â gwybodaeth yn ôl i'w hysgol, helpu eu cydweithwyr i ddyfeisio dulliau o weithio gyda phlant sy'n anodd eu dysgu, gan drosglwyddo'r hyn y maent wedi'i ddysgu. [16]

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn ymgyrchu i sicrhau bod un athro neu athrawes ym mhob ysgol yn arbenigo mewn dyslecsia, ac yn meddu ar ddiploma ôl-raddedig.

Tyfodd y *Fenter Ysgolion Cyfeillgar at Ddyslecsia* o'r ymwybyddiaeth bod nifer gynyddol o ddisgyblion yn cael eu cyfeirio am gymorth gan raglen Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn unol â *Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* [17] ac yn cael eu hasesu'n ffurfiol, a gellid priodoli hyn yn rhannol i ddiffyg arbenigedd yn yr ysgolion. Mae'r fenter yn rhoi pwyslais cryf ar ddull o drin dyslecsia fel ysgol gyfan dan arweiniad athrawon arbenigol. Mae Sir y Fflint ac Abertawe yn Awdurdodau Addysg Lleol Dyslecsia-Gyfeillgar.

---

[16] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

[17] Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/codes_of_practice/special_ed_cop_04?lang=en

Drwy gymorth ac arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, lansiwyd rhifyn dwyieithog o *Becyn Adnoddau Cyflawni Ysgolion Cyfeillgar at Ddyslecsia* ym mis Mai 2006. [18] Nod y pecyn yw chwalu'r rhwystrau sy'n atal plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) rhag manteisio i'r eithaf ar eu hamser yn yr ysgol.

Mae Dyslexia Action Cymru yn gefnogol o'r fenter Ysgolion Cyfeillgar at Ddyslecsia. Maent yn credu y dylai ystafell ddosbarth cyfeillgar at ddyslecsia gynnig gwahanol ddulliau dysgu ac y dylai athrawon fod yn ymwybodol o *wahaniaethau* dysgu penodol yn hytrach nag *anawsterau* dysgu penodol).

Fodd bynnag, yn ôl yr Athro David Reynolds, roedd angen bod yn ofalus:

> Ni chafwyd digon o ymchwil i [. . .] ysgolion cyfeillgar at ddyslecsia ac ni chafwyd diffiniadau clir o'r hyn a wnânt, er nad yw hynny'n feirniadaeth o neb yn y maes. Nid ydym yn deall sut i fynd ati, a does dim digon o dystiolaeth i ddangos os byddwch yn mynd ati, y bydd yn talu ar ei ganfed. [19]

Mae angen cysondeb hefyd o ran hyfforddiant ac adnoddau i Gydgysylltwyr AAA.[20] Clywodd y Grŵp Rapporteur dystiolaeth anecdotaidd y gallai'r cymorth a gynigir gan Gydgysylltwyr AAA amrywio am nifer o resymau gan gynnwys yr amser y maent yn ei dreulio'n gweithio gyda phlentyn unigol a lefel yr arbenigedd a'r diddordeb sydd gan Gydgysylltwyr AAA unigol mewn dyslecsia.

Croesawodd nifer o dystion y pwyslais ar y cwricwlwm blynyddoedd cynnar a dulliau dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Pwysleisiwyd eto y gall fod yn effeithiol iawn rhoi cymorth cynnar i blant ifanc sy'n cael anawsterau gydag, er enghraifft, synau'r llafariaid sylfaenol, creu dilyniant syml er enghraifft, dyddiau'r wythnos etc.

---

[18] *Pecyn Adnoddau Cyflawni Ysgolion Cyfeillgar at Ddyslecsia,* gwefan Cymdeithas Dyslecsia Prydain, http://www.bdadyslexia.org.uk/dfs.html
[19] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007
[20] Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig

*Prosiect Llwyddiant*

Gydag arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ystyriodd Prosiect Llwyddiant ddulliau newydd o ysgogi pobl ifanc dyslecsig ac anawsterau dysgu penodol eraill, sy’n debygol o adael y system addysg. Cafodd Cymdeithas Dyslecsia Prydain, a phartneriaid eraill, £1.17 miliwn o arian Amcan 1 ar gyfer y prosiect.

**Hyfforddi athrawon**

Aeth un Aelod o’r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia ati i grynhoi pa mor bwysig oedd cynnwys ymwybyddiaeth o ddyslecsia ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon a soniodd hefyd mor bwysig oedd gwaith y cynorthwywyr dosbarth.

> **Janet Ryder:** Law yn llaw â hyn, rydym wedi ystyried addysgu’n gyffredinol, a chynorthwywyr dosbarth yn ogystal ag athrawon. Credaf fod angen i ni edrych yn benodol ar gyrsiau hyfforddi athrawon a sut yr ydym yn hyfforddi athrawon ysgolion cynradd a blynyddoedd cynnar, er bod angen i ni edrych ar addysg ysgolion uwchradd hefyd. Mae angen i ni ystyried a ydym yn hyfforddi athrawon yn ddigonol i’w helpu i adnabod anghenion dysgu unigol eu disgyblion …Credaf fod angen i ni fynd yn ôl i ystyried sut rydym yn hyfforddi athrawon i sicrhau bod pob athro neu athrawes, yn enwedig athrawon sy’n dysgu plant yn ystod y blynyddoedd cynnar a chyn iddynt droi’n chwech neu’n saith oed, yn gallu asesu plentyn unigol a dweud, ‘Dyma’r angen dysgu ychwanegol sydd gan y plentyn hwn’, waeth beth ydyw. Mae’n bosibl bod myrdd o atebion a dulliau ymyrryd ar gael, ond mae angen i ni roi adnoddau i

athrawon ac, yn benodol, cynorthwywyr dosbarth, sy'n rhan mor bwysig o'r cyfnod sylfaen. [21]

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r sefydliadau unigol yn ailasesu cynnwys cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon er mwyn gwella dealltwriaeth Athrawon dan Hyfforddiant o anghenion dysgu ychwanegol yn sylweddol. Dylid sicrhau bod hyn yn wir am bob cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.**

**Dylai pob athro dan hyfforddiant (ac nid y rheini sy'n hyfforddi i weithio mewn ysgol fabanod yn unig) gael hyfforddiant gorfodol a fydd yn eu galluogi i adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol.**

**Dylai pob athro dan hyfforddiant hefyd gael fwy o hyfforddiant gorfodol ar ddarparu cymorth i blant nad ydynt yn cyrraedd lefel gyfartalog eu carfan.**

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ailasesu'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer cynorthwywyr dosbarth, yn enwedig fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen, i blant ifanc ag anghenion addysg arbennig.**

---

[21] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

**Dylid sicrhau bod dysgu'r sgiliau i gefnogi plant sy'n cael trafferth darllen ac ysgrifennu yn dod yn elfen orfodol o hyfforddiant cychwynnol cynorthwywyr dosbarth a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod cynorthwywyr dosbarth yn meddu ar y sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddarparu'r cymorth hwn yn effeithiol.**

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r hyfforddiant sydd ar gael i Gydglynwyr AAA o ran rhoi cymorth i blant â dyslecsia ac yn ariannu darpariaeth ychwanegol, yn ôl y galw, i sicrhau mwy o gysondeb yn arbenigedd Cydglynwyr AAA.**

**Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ystyried pa mor ymarferol fyddai rhoi hyfforddiant ôl-raddedig (lefel 4) i un athro ym mhob ysgol i gynorthwyo plant â dyslecsia a beth fyddai'r gost debygol o ddarparu hyn.**

## 7. Adnoddau Cymraeg

Clywodd y Grŵp Rapporteur dystiolaeth gan nifer o dystion am brinder y gwaith ymchwil, y dystiolaeth a'r cymorth sydd ar gael i bobl â dyslecsia sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Soniodd athrawon am yr angen i gael prawf darllen Cymraeg ynghyd â phrawf safonol ar gyfer geirfa fynegiannol a derbyngar yn Gymraeg.

**Ms Cooke:** Rydym yn byw mewn cymdeithas ddwyieithog. Yn fy ardal i, mae'r system addysg yn gwbl ddwyieithog; mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau darllen yn Gymraeg cyn iddynt ddechrau darllen yn Saesneg. Mae angen i ni ymchwilio mewn cyd-destun Cymreig i'r ffordd y mae dyslecsia'n rhyngweithio â gwahanol fathau o systemau ieithyddol. Cafwyd gwaith ymchwil o safbwynt Tsieceg, Pwyleg ac Almaeneg, ond nid ydym wedi gwneud hynny o safbwynt y Gymraeg. Prin iawn yw'r gwaith ymchwil i'r ffordd y mae plant yn dysgu darllen Cymraeg, ac effaith dysgu Cymraeg ar y ffordd y maent wedyn yn dysgu Saesneg, neu i'r gwrthwyneb os dyna sy'n digwydd, sef y ffordd y mae dysgu Saesneg yn effeithio ar y Gymraeg. Mae meysydd eang y mae angen i ni wybod amdanynt, er lles pob plentyn, ond yn enwedig er lles y rheini sy'n cael anhawster gyfer llythrennedd. Gan hynny, dyma fy ail bwynt - mae angen i ni ymchwilio i ddwyieithrwydd a dyslecsia.[22]

Mae rhai adnoddau ar gael: er enghraifft, clywodd y grŵp fod Prosiect Dyslecsia Cymru wedi datblygu profion sgrinio Saesneg a Chymraeg; cyfrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £60,000 at y gwaith hwn; ac mae Prifysgol Bangor yn arbenigo mewn addysg Gymraeg i blant dyslecsig; er enghraifft aelodau o'r uned ddatblygodd *O Gam I Gam* a *Camu 'Mlaen* ond mae'n amlwg bod angen rhagor o adnoddau i ateb y galw.

Ym mis Ionawr 2008, ymwelodd y Grŵp Rapporteur â'r Uned Dyslecsia ym Mhrifysgol Bangor a chlywsant gyflwyniadau am waith yr uned gan gynnwys yr astudiaethau ymchwil diweddaraf a oedd yn cynnwys astudiaethau niwrolegol a thechnoleg fMRI i sganio'r ymennydd; datblygu prawf geirfa safonol Cymraeg i

[22] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

blant 7-11 oed a phrawf dyslecsia i blant a'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Clywodd y Grŵp Rapporteur hefyd am gyfraniad yr Uned Dyslecsia at y gwaith o roi hyfforddiant arbenigol i athrawon; darparu hyfforddiant arbenigol mewn dyslecsia yn ysgolion tair ardal Awdurdod Lleol; darparu gwasanaeth asesu drwy gyfrwng y Gymraeg i blant ac oedolion a pharatoi amrywiaeth eang o ddeunyddiau Cymraeg.



**Yr Is-Ganghellor, y Deon, a staff yr Uned Dyslecsia ym Mhrifysgol Bangor yn cwrdd ag Aelodau'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia.**

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai profion sgrinio, profion asesu a chymorth fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn modd cyfartal ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i ateb y galw.**

## 8. Y mathau o gymorth sydd ar gael

### Rhaglen Dore

Ymwelodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia â Chanolfan Dore ym Mhorth Caerdydd ym mis Awst 2007. Clywsant am Raglen Dore a gwelsant arddangosfeydd ymarferol o'r profion sgrinio sy'n cael eu cynnal yn y ganolfan gan gynnwys profion ar ystum corfforol, symudiadau'r llygaid a dyslecsia. Cynllunnir rhaglen ymarfer strwythuredig bersonol i leihau neu i ddileu unrhyw ddiffyg ar y serebelwm. Caiff yr ymarferion eu cynllunio i ysgogi'r serebelwm a chânt eu cwblhau ddwywaith y dydd. Mae pob ymarfer yn cymryd tua 5-10 munud. Caiff cynnydd ei fonitro gan Ganolfan Dore bob 6 wythnos ac ar gyfartaledd, mae'n cymryd tua 13 mis i gwblhau'r rhaglen lawn.

Clywodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia dystiolaeth bersonol gan blant, eu rhieni ac oedolion am eu profiadau o Raglen Dore. Yn ogystal â'r profiadau personol, rhoddodd Dr Roy Rutherford, Cyfarwyddwr Meddygol Dore, enghreifftiau o astudiaethau ymchwil Rhaglen Dore gan gynnwys Astudiaethau Ysgol Balsall Common (astudiaeth o tua 40 o blant); ac astudiaethau gan Awdurdodau Addysg Lleol gan gynnwys Awdurdodau Addysg Lleol Ynys Môn a Gwynedd. Er bod nifer o brosiectau ymchwil wedi'u cwblhau a bod y canlyniadau wedi'u cyhoeddi, dywedodd staff Canolfan Dore y byddent yn croesawu unrhyw benderfyniad i werthuso'u rhaglen drwy astudiaeth wyddonol gadarn, wedi'u hariannu'n annibynnol fel rhan o ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru.

Fodd bynnag, ar 28 Mai 2008, cyhoeddwyd bod Dore yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr a bod cyd-weinyddwyr wedi'u penodi i oruchwylio a rheoli

busnes ac eiddo'r cwmni. Rhoddwyd cyngor a chymorth i gwsmeriaid rhaglen Dore a rhoddwyd y rhaglen ar y wefan a ganlyn: http://my.dore.co.uk/Default.aspx. Mae canolfannau Dore yn y DU yn y broses o gael eu cau.

**Dull Raviv**

Cyfarfu Jacqui Brett a Dr Peter Harris â'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia i arddangos dull Raviv ac i roi gwybodaeth amdano. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar y gwahanol synhwyrau ac mae'n cynnwys y corff cyfan er mwyn ceisio adeiladu cysylltiadau niwrolegol newydd drwy hyfforddiant ac ymarfer corff.

Mae Dull Raviv wedi'i seilio ar sesiynau wythnosol 50-60 munud o hyd gydag ymarferydd Raviv. Bydd y rhaglen lawn fel arfer yn cymryd tua 12 ac 20 sesiwn ac yn parhau am tua 4-6 mis. Hefyd, mae angen cwblhau ymarferion gartref (tua 25 munud bob dydd). Rhai enghreifftiau o ymarferion dyddiol dull Raviv yw: cerdded yn siâp y ffigur 8, canolbwyntio ar y teledu am 20 munud ac ymarferion anadlu am 3-5 munud. [23]

Byddai Ymarferwyr Raviv hefyd yn croesawu astudiaeth wyddonol gadarn, wedi'i hariannu'n annibynnol, i werthuso'u dulliau.

---

[23] Gwefan dull Raviv, http://www.thelearningsociety.com/en/index_en.aspx

**Sbectolau a throshaenau lliw**

Yn 1983, cyflwynodd Helen Irlen, seicolegydd addysg o Califfornia, y syniad o ddefnyddio lensys a throshaenau lliw i helpu plant i ddarllen. Honnai mai 'Syndrom sensitifrwydd sgotopig' (SSS) oedd yn achosi dyslecsia (a chyflyrau eraill), oherwydd sensitifrwydd annormal y retina i donfeddi goleuni penodol iawn.

Un o nodweddion y cyflwr, sydd hefyd yn cael ei alw'n 'Syndrom Meares-Irlen' yw symptomau o annormaledd gweledol ac afluniad canfyddiadol gweledol. Mae hyn yn cynnwys disgleirdeb ar y dudalen, cur pen wrth ddarllen, blinder yn y llygaid ac ansefydlogrwydd y print. Gall yr afluniadau gynnwys aneglurder, llythrennau'n symud, geiriau'n dyblu, llinellau rhithiol, siapiau neu liwiau ar y dudalen a chryndod.

Cafodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ragor o wybodaeth am effaith posibl lensys a throshaenau lliw mewn papur ysgrifenedig gan yr Athro John Stein, Prifysgol Rhydychen:[24]

> Mae llawer o bobl â dyslecsia yn cwyno am ddryswch gweledol wrth ddarllen [Stein a Fowler, 1981; Evans, 1996 #273]; mae'r llythrennau'n aneglur, yn symud ac yn newid lle, neu mae'r dudalen yn llachar ac yn rhoi cur pen iddynt. Mae'r dryswch gweledol hwn yn amharu ar eu gallu i weld y llythrennau'n iawn a chan hynny gall amharu ar eu gallu i'w cyfateb i synau a deall cynrychiolaeth ffonolegol.

[24] Cyfarfod y Pwyllgor Menter y Dysgu, 7 Tachwedd, Papur gan yr Athro John Stein, EL(3) 09-07 (p4)

Dywedodd (Meares 1980) y gallai ffilteri lliw leihau'r dryswch gweledol hwn yn arw. Aeth cwmnïau masnachol ati'n ddiymdroi i'w cynhyrchu ac mae nifer o wahanol fathau o ffilteri lliw ar y farchnad yn awr i drin anawsterau darllen (Wilkins a Nimmo Smith 1984; Irlen 1991; Harris a MacRow-Hill 1999). Datblygodd Irlen droshaenau lliw ac arlliwedig i helpu plant a oedd yn cwyno am afluniadau canfyddiadol, straen gweledol, cur pen, disgleirdeb a llygaid dolurus a blinedig. Rhoddodd y term 'syndrom sensitifedd sgotopig' ar y cyflwr hwn a honnai y byddai ei ffilteri'n lleihau hyd tonfeddi goleuni hanfodol sy'n creu afluniadau yn yr ymennydd. Mae gwaith ymchwil annibynnol, fodd bynnag, wedi awgrymu y gellir priodoli'r manteision honedig i effeithiau plasebo. [Blaskey, 1990 #278] Robinson, 1999 #277]. [25]

Datblygwyd brand newydd o ffilter lliw yn fwy diweddar ([Wilkins, 1994 #295]) gan ddefnyddio'i "fesurydd lliw sythweledol" i helpu i nodi'n fanylach yr arlliw penodol a fyddai'n lliniaru'r 'gorgynhyrfedd cortigol' sydd, yn ei dyb ef, yn creu symptomau gweledol mewn rhai pobl ([Wilkins, 1994 #306])

. . . Ond nid yw'n eglur eto a yw ffilteri lliw'n gwella darllen yn sylweddol ynteu ai effaith plasebo sydd iddynt. [26]

Yna aeth yr Athro Stein rhagddo i ddisgrifio'i ymchwil:

Wrth astudio plant yn ein clinigau dyslecsia yn Reading a Rhydychen pan fyddent yn cael dewis lliw, gwelsom y byddent bron yn ddieithriad yn dewis dim ond naill ai melyn neu glas. Gan hynny, rydym wedi

[25] Cyfarfod y Pwyllgor Menter y Dysgu, 7 Tachwedd, Papur gan yr Athro John Stein, EL(3) 09-07 (p4)
[26] Cyfarfod y Pwyllgor Menter y Dysgu, 7 Tachwedd, Papur gan yr Athro John Stein, EL(3) 09-07 (p4)

> cynnal prawf rheoledig ar hap gan ddefnyddio mesurau darllen safonedig, gyda'r ddau liw hyn yn unig.[27]

A'r canlyniadau:

> Cadarnhaodd y prawf rheoledig dwbl-ddall fod plant ag anawsterau darllen difrifol yn dysgu darllen yn llawer haws gyda'r ffilteri melyn neu glas na gyda'r cardiau plasebo. . . . .
>
> Mae'n bwysig pwysleisio na fydd ffilteri lliw'n helpu pawb sydd ag anawsterau darllen. Ymddengys mai'r unig rai y maent yn eu helpu yw'r rheini sy'n cwyno am broblemau darllen gweledol fel llythrennau aneglur, disgleirdeb, llythrennau'n symud neu'n newid lle, a'r rheini sydd â chydgyfeiriant a chymhwysiad gostyngol. Ond mae hyn yn broblem gan gyfran uchel o'r plant a welwn yn ein clinigau. [28]

Ysgrifennodd un rhiant at y Grŵp Rapporteur yn sôn am brofiadau'i ferch a oedd wedi elwa o'r ffilteri melyn. Pwysleisiodd y rhiant hefyd bwysigrwydd adnabod anawsterau'n gynnar.

"Mae fy merch yn awr wedi ymweld ddwywaith â'r Ganolfan Ymchwil yn Rhydychen ac maent wedi dweud wrthym fod sgiliau darllen fy merch wedi gwella ar ôl iddi wisgo'r sbectolau â lensys melyn. Ar hyn o bryd rydym yn aros am adroddiad gan y Brifysgol. Fodd bynnag, ymddengys ei bod yn dangos cynnydd aruthrol gyda'i darllen, ei chof clywedol a'i darllen a'i deall. Er hyn, ymddengys nad yw ei sgiliau llythrennedd wedi gwella dim o ran ei gallu i sillafu geiriau.

[27] Cyfarfod y Pwyllgor Meneter y Dysgu, 7 Tachwedd, Papur gan yr Athro John Stein, EL(3) 09-07 (p4)
[28] Cyfarfod y Pwyllgor Meneter y Dysgu, 7 Tachwedd, Papur gan yr Athro John Stein, EL(3) 09-07 (p4)

Byddai'n rhesymol awgrymu bod hyn i'w briodoli i'r ffaith y bu ganddi nam gweledol yn ystod y rhan fwyaf o Gyfnod Allweddol 1. Mae angen iddi ailddysgu a sillafu'r rhan fwyaf o'r geiriau mwyaf cyffredin ar gyfer y cam hwnnw yn ei haddysg, Credaf ei bod, 2 flynedd ar ei hôl hi, o bosibl, o ran ei gallu i sillafu.

O'n safbwynt ni, pe baem wedi sylweddoli bod ganddi'r broblem hon yn gynharach, efallai na fyddai hyn yn gymaint o broblem."

Mae astudiaethau ymchwil eraill, fodd bynnag, yn awgrymu y gall amrywiaeth ehangach o lensys/droshaenau lliw helpu mewn rhai achosion.

Cysylltodd dau orthoptydd â'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia yn annibynnol ar ei gilydd i awgrymu y gellid priodoli diffyg cynnydd o ran darllen a rhuglder darllen i'r canlynol:

- Problemau ocwlar. . . mae'n bosibl bod angen i'r plentyn wneud ymarferion llygaid orthoptig a/neu
- Mae angen i'r plentyn wisgo sbectol.
- Os caiff y ddau uchod eu trin neu os nad ydynt yn berthnasol, ac mae'r plentyn yn dal i gael anawsterau darllen, gellir rhoi cynnig ar brofion sgrinio Meares Irlen.

Dyma rai sylwadau eraill:

> Nid wyf yn ceisio awgrymu bod gan bob plentyn sydd ag anawsterau llythrennedd broblemau gyda'i olwg ond, yn ddelfrydol, dylid cynnal

archwiliadau orthoptig cyn gynted ag y bydd yr ysgol yn sylwi ar anawsterau llythrennedd.

Gyda'u hyfforddiant a'u gwybodaeth am y system prosesu gweledol mae orthoptydd yn gymwys i ddarganfod y problemau hyn sydd, yn anffodus, yn cael eu hesgeuluso'n aml.

**Coleg Glannau Dyfrdwy - "y dull cyfannol" [29]**

Ymwelodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia â Choleg Glannau Dyfrdwy i weld y dull cyfannol y mae'r coleg yn ei fabwysiadu i adnabod ac i gynorthwyo myfyrwyr unigol a fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol (gan gynnwys myfyrwyr dyslecsig). Cafodd gryn argraff ar yr Aelodau. Caiff gwybodaeth am ddulliau dysgu unigolion ei chasglu o'u hasesiad cychwynnol a thrwy gydweithrediad yr athrawon cwrs. Cynigir cymorth drwy'r Ganolfan Sgiliau Astudio, sydd mewn safle canolog yn y coleg. Bydd y staff sy'n dysgu sgiliau astudio'n cydweithio'n effeithiol ag athrawon i sicrhau bod y dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i symud ymlaen gyda'u cyrsiau.

[29] Gwefan Coleg Glannau Dyfrdwy: http://www.deeside.ac.uk/newdc/home-home.php




**Aelodau'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia yn ymweld â'r Ganolfan Sgiliau Astudio ac yn cwrdd â'r Prifathro, David B Jones, a Carol Newsam, Rheolwr Rhanbarthol y Rhaglen Sgiliau Byw.**

Mae un aelod o staff y Coleg yn gallu nodi a phrofi myfyrwyr a allai elwa o ddefnyddio lensys lliw. Mae'n argymell dulliau ymyrryd ymarferol i gynorthwyo myfyrwyr, er enghraifft, argraffu taflenni ar bapur lliw neu bapur wedi'i ailgylchu (nad yw'n gwbl wyn).

**Y dull ffonig**

Roedd llawer o dystion, er enghraifft, Cymdeithas Dyslecsia Prydain, Dyslexia Action, yr Uned Dyslecsia ym Mhrifysgol Bangor a British Dyslexics o blaid defnyddio'r dull ffonig fel y prif ddull o ymyrryd i helpu pobl sydd â dyslecsia. Gwelodd a chlywodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia am nifer o enghreifftiau o adnoddau ffonig Cymraeg a Saesneg, er enghraifft *Toe by Toe*, *Letters and Sounds.*

Roedd Ysgol Bryn Coch yn Sir y Fflint, yr Ysgol Gyfeillgar at Ddyslecsia yr ymwelodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia â hi, yn hyrwyddo dull ffonig o helpu disgyblion dyslecsig.

Mae rhaglenni ymyrraeth gynnar yn Lloegr a ddatblygwyd i helpu plant sydd â phroblemau llythrennedd wedi'u seilio ar ddulliau ffonolegol.

***Fast ForWord®***

Rhaglen gyfrifiadurol yw *Fast ForWord®* a ddyfeisiwyd yn America ac a ddefnyddir mewn ysgolion a chydag oedolion. Y mae ar ffurf gêm ac mae'n addasu anhawster y tasgau y mae'n rhaid i’r dysgwyr eu cwblhau, yn ôl eu canlyniadau. Mae'n ddull dwys a gall dysgwyr dreulio 50-100 o funudau arno bob dydd, bum niwrnod yr wythnos, dros gyfnod o 4-12 wythnos (gan ddibynnu ar hyd y sesiynau a'r cynnydd a wneir).[30]

Mae'r fframwaith ar gyfer Deall Dyslecsia gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn[31] am *Fast ForWord®*

> The Fast ForWord language programme:
>
> Rhaglen addysgu yw hon sy'n canolbwyntio ar helpu dysgwyr i ddod yn fwy rhugl wrth brosesu synau sy'n newid yn gyflym. Yr hypothesis sydd wrth wraidd y rhaglen yw bod modd dysgu ymennydd pobl ddyslecsig i weithio'n debycach i bobl heb ddyslecsia. Mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio i helpu dysgwyr i glywed synau mewn geiriau drwy or-bwysleisio ac arafu'r synau.

---

[30] Gwybodaeth oddi ar wefan *Fast ForWord* : http://www.innovative-therapies.com/

[31] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd - ’ A Framework for Understanding Dyslexia’, http://www.dfes.gov.uk/readwriteplus/understandingdyslexia/approachesprogrammes/physiological/fastforword/

> Bydd dysgwyr yn dilyn ymarferion ar y cyfrifiadur a gynlluniwyd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ieithyddol gan gynnwys ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig, rhuglder, geirfa, darllen a deall, datgodio, cof gweithio, cystrawen, gramadeg a sgiliau eraill. Mae hi'n rhaglen ddwys, gyda dysgwyr yn gwneud yr ymarferion am 100 munud y diwrnod am 4 i 6 wythnos. Caiff yr ymarferion eu cyflwyno ar ffurf gemau cyfrifiadur sy'n gwobrwyo'r dysgwyr pan fyddant yn adnabod synau'n gywir neu'n dilyn cyfarwyddiadau ar y sgrin yn gywir. Mae modd addasu'r ymarferion, gan eu gwneud yn anoddach wrth i sgiliau gwrando'r dysgwyr wella.

Gwelodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia arddangosfa o gynhyrchion *Fast ForWord®* yn ystod ei ymweliad â Gogledd Cymru. Clywsant fod cynhyrchion *Fast ForWord®* wedi'u cynllunio'n bennaf i helpu pobl ag anawsterau clywedol yn hytrach nag anawsterau prosesu gweledol.

Clywodd y Grŵp Rapporteur hefyd yr Athro Ian Creese, Athro Niwrowyddoniaeth ym Mhrifysgol Rutgers, UDA, [32] yn disgrifio rhan o'i ymchwil i blastigrwydd ymenyddol a datgodio arleisiol.

Ar sail ei waith ymchwil academaidd, eglurodd yr Athro Creese y gwahaniaeth niwrolegol rhwng ymennydd darllenwr dyslecsig ac ymennydd darllenwr cyffredin. Amlygir y gwahaniaeth drwy ddefnyddio sganiwr delweddu cyseinedd magnetig gweithredol (fMRI). Eglurodd hefyd fod cyflymder prosesu clywedol yn bwysig iawn. Er enghraifft, i wahaniaethu rhwng y synau mewn gair, mae angen i'r ymennydd glywed newidiadau cyflym mewn synau sy'n digwydd mewn milieiliadau (milfed rhan o eiliad). Mae'r gwahaniaethau

[32] Yr Athro Ian Creese, Athro Niwrowyddoniaeth, Prifysgol Rutgers, UDA, http://cmbn.rutgers.edu/research/creese/

lleiaf yn yr adeg y mae llinynnau'r llais yn dechrau dirgrynu'n creu'r gwahaniaeth rhwng "ba" a "pa" er enghraifft.

Ym mis Ebrill 2008, ymwelodd aelodau'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia ag Ysgolion Cyhoeddus Everett ym Massachusetts lle caiff cynhyrchion *Fast ForWord*® eu defnyddio yn y chwe ysgol gyhoeddus yn Ardal Ysgolion Everett. Os gwelir bod angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion gyda'u darllen, byddant yn defnyddio cynhyrchion *Fast ForWord*® am 50 munud bob dydd yn yr ysgol. Bydd pob plentyn yn defnyddio cynhyrchion *Fast ForWord*® ar gyfrifiadur unigol mewn dosbarth o rwng 20 a 30 o blant. Bydd athro cynorthwyol yn treulio amser gyda phob plentyn wrth iddo ddefnyddio'r cynhyrchion i drafod cynnydd ac unrhyw anawsterau.

Cafodd system olrhain cynnydd *Fast ForWord*® gryn argraff ar y Grŵp Rapporteur, sef dull o ddadansoddi data ar-lein ac offeryn cofnodi sy'n galluogi athrawon i fonitro perfformiad unigol, perfformiad ystafell ddosbarth a pherfformiad ysgol myfyrwyr sy'n defnyddio cynhyrchion *Fast ForWord*®.



**Yr Athro Ian Creese, Athro Niwrowyddoniaeth, Prifysgol Rutgers, Jersey Newydd, UDA, gyda disgybl Ysgol Gyhoeddus Everett ym Massachusetts.**

Cyflawnwyd astudiaeth arsylwadol o fyfyrwyr Everrett[33] a'u cynnydd wrth ddefnyddio cynhyrchion *Fast ForWord*® gan y Scientific Learning Corporation. Cyflwynwyd copïau o ganlyniadau'r astudiaeth ar gyfer 2006-2007 i'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia.[34] Gwerthuswyd y 853 myfyriwr yn yr astudiaeth drwy ddefnyddio System Asesu Cynhwysfawr Massachusetts (MCAS) a/neu Brofion Darllen Gates/MacGinitie (GMRT) cyn ac ar ôl y prawf ei hun.

Dyma rai o'r canlyniadau:

- O blith y 756 myfyriwr a werthuswyd yn defnyddio Profion Darllen Gates/ MacGinitie, y gwelliant cyfartalog oedd 22 mis yn y 10 mis cyn ac ar ôl y profion.

[33] Scientific Learning Corporation. (2007). *Improved Reading Skills by Students in the Everett Public Schools who used Fast ForWord® products, MAPS for Learning, Educator Reports*.

[34] Mae canlyniadau'r ysgol Everett hefyd ar gael yn: http://www.scilearn.com/results/region/northeast/main=everett

Yn defnyddio'r profion MCAS:

- Symudodd 32 y cant o fyfyrwyr fyny i un categori'n uwch neu'n fwy. Symudodd traean o fyfyrwyr a gafodd eu dosbarthu'n wreiddiol yn y categori "Angen gwella" i fyny i'r lefel "Hyddysg".

Ymwelodd y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia hefyd ag Ysgol Feddygol Harvard lle clywsant fanylion y gwaith ymchwil diweddaraf i blastigrwydd ymenyddol gan yr Athro Joseph B. Martin, cyn Ddeon Ysgol Feddygol Harvard a'r Doctor Nadine Gaab, Athro Cynorthwyol yn Ysbyty Plant Boston / Harvard.

Darparodd yr Athro Martin grynodeb o'r ymchwil gwyddonol diweddaraf a gyflawnwyd ganddo ar glefydau niwroddirywiol (achlysurol, etifeddol a chynyddol). Er enghraifft, clefydau Parkinson, Alzheimer a Huntingdon a dementia. Yna, defnyddiodd ddelweddau MRI i ddangos y rhannau hynny o'r ymennydd a gaiff eu hactifadu gan wahanol fathau o actifedd, yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff y lefelau uchaf o ocsigen eu rhyddhau yn yr ardaloedd lle ceir y lefelau uchaf o actifedd, ac y gellir eu holrhain fel gwaed yno. Disgrifiodd y dystiolaeth dros blastigrwydd yr ymennydd yn fanwl, yn benodol plastigrwydd synaptig, yn cynnwys y gwahanol ffyrdd y gall yr ymennydd atgyweirio ei hun yn enwedig ei lwybrau niwrolegol.

Yn olaf, disgrifiodd yr Athro Martin ddefnyddiau ymarferol yr ymchwil gwyddonol diweddaraf i blastigedd yr ymennydd ar gyfer, er enghraifft, iaith a dysgu; niwroadferiad ar ôl strôc; dysgu ail-iaith ac i driniaethau ar gyfer dibyniaeth.

Mae'r Doctor Gaab wedi cyhoeddi canlyniadau astudiaeth delweddu'r ymennydd yn ddiweddar[35] sy'n awgrymu bod plant sydd â dyslecsia datblygiadol yn cael anawsterau darllen oherwydd nad yw eu hymennydd yn gallu prosesu synau sy'n newid yn gyflym.  Eglurodd y Dr Gaab y theori prosesu clywedol cyflym (Rapid Auditory Processing) yn fanwl. Hefyd, disgrifiodd ei hymchwil diweddar i ddatblygiad iaith a phlastigedd yr ymennydd ymysg plant. Mae gan y Dr Gaab ddiddordeb arbennig mewn plant sy'n ifancach nag oed darllen a sut y mae ymennydd darllenwyr hyfedr yn datblygu rhwydwaith o gysylltiadau ymennydd.

## 9. Yr angen i gynnal astudiaethau gwerthuso annibynnol

Roedd llawer o'r tystion a fu'n siarad â'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia yn daer o blaid cynnal astudiaethau annibynnol i werthuso o leiaf rhai, os nad pob dull o gynorthwyo pobl ddyslecsig.

> **Ms Cooke:** Fel y dywedodd y gweddill, nid ydym yn gwybod pam yn union mae rhai systemau'n gweithio gyda rhai plant a pham nad ydynt yn gweithio gydag eraill. Mae dyslecsia'n ddirgelwch yn y cyswllt hwnnw. [36]

Trafodwyd diben, ymarferoldeb a chost debygol cynnal astudiaeth werthuso annibynnol yn fanwl gan y rheini a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ym mis Tachwedd 2007.

---

[35] Hydref 2007; Gaab et al; (2007) "Neural correlates of rapid auditory processing are disrupted in children with developmental dyslexia and ameliorated with training: An fMRI study,"; Restorative Neurology and Neuroscience 25, 295-310

[36] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

> **Yr Athro Reynolds:** Yn hanesyddol, y broblem gyda dyslecsia a phroblemau dysgu eraill, yw methiant, i raddau helaeth iawn, i ddiwallu anghenion a phrinder triniaethau sydd wedi'u profi'n wyddonol... Rhan o'r anhawster yw nad oes prawf bod y triniaethau presennol yn ddilys. [37]

ac:

> **Yr Athro Reynolds:** Gan hynny, yr hyn rwy'n argymell yr ydym yn ei ystyried a'i drafod heddiw, os mynnwch, yw sut fath o raglen ymchwil y gallem ei chynnal Nghymru i brofi honiadau'r gwahanol grwpiau yn y maes dadleuol hwn. Byddai hyn yn golygu edrych, mae'n debyg, ar y triniaethau unigol sydd ar gael ac yna ar gyfuniad o'r triniaethau. Rydw i'n rhagweld y byddem yn gweld 'effaith ryngweithiol', i ddefnyddio'r jargon, drwy gyfuno'r triniaethau – cewch fwy na chyfanswm y gwahanol rannau. Bydd yr effeithiau, fel petai, yn cael eu lluosi. [38]

Aeth yr Athro Reynolds rhagddo i awgrymu chwe math o driniaethau y gellid eu cynnwys:

> …cymorth confensiynol sy'n seiliedig ar y dull ffonig; ffilteri lliw; rhaglen Dore; systemau ymarfer eraill; trin â chyffuriau a/neu ychwanegiadau bwyd/fitaminau fel pwysigrwydd dŵr, olew pysgod, diet, fitaminau unigol a chyfuniad ohonynt.[39]

---

[37] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

[38] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

[39] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007 http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

Nid oedd pob un o’r tystion yn cytuno â rhestr yr Athro Reynolds ond, er hyn, roedd pawb yn cytuno bod angen rhaglen ymchwil annibynnol a oedd wedi’i strwythuro’n wyddonol. Bydd yn hanfodol cynllunio unrhyw raglen ymchwil yn ofalus, gan ystyried yr agweddau moesegol er enghraifft defnyddio grŵp safonol, profi cyffuriau a gaiff eu defnyddio mewn triniaethau etc.

Bydd prosiect ymchwil o’r fath yn gosod Cymru ar flaen y gad yn yr ymdrech i ddeall dyslecsia ac effeithlonrwydd y gwahanol fathau o gymorth/triniaethau sydd ar gael. Byddai llawer o’r tystion, unigolion dyslecsig a chyrff/cwmnïau sy’n darparu triniaethau, yn croesawu ac yn cefnogi’n frwd y syniad o gynnal astudiaeth annibynnol ac awdurdodol i werthuso’r gwahanol driniaethau.

> **Yr Athro Fawcett:** Mae dadl frwd yn y maes hwn ynglŷn â’r angen i gynnal prawf rheoledig ar hap gyda phlasebo. . . . . Mae angen sicrhau hefyd fod yr ymchwil yn cael ei ariannu gan rywun nad oes ganddo unrhyw fuddiant ynddo. Rhan o’r ddadl yw mai’r rheini sy’n cynnig cynnal yr ymchwil sydd hefyd ynn aml yn cynnig yr arian i’w gynnal, ac mae hynny’n ei gwneud hi’n anoddach ei ddilysu. Mae angen rhywun nad oes ganddo unrhyw fuddiant penodol yn unrhyw un o’r dulliau ymyrryd. Gan hynny, mae angen ei wneud yn deg ac yn wyddonol a heb unrhyw gyhoeddusrwydd sydd, unwaith eto, yn anodd iawn . . . . Yr hyn sydd ei angen arnom yn y pen draw yw system meincnodi. Mae angen i ni ddeall pam mae un dull yn helpu rhai plant ac yn methu gydag eraill. Erbyn diwedd y prawf, gallai’r Cynulliad fod ag amrywiaeth o ymyriadau posibl, ar gyfer gwahanol fathau o blant, ac ar gyfer gwahanol oedrannau. Gellid, felly, paratoi rhyw fath o restr i rieni fedru

dewis ohoni, a byddai'r gost a'r ymrwymiad tebygol yn glir. Byddai hynny'n gam mawr ymlaen.[40]

Crëwyd argraff dda ar y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia gan ymroddiad yr holl weithwyr dyslecsia a gyflwynodd dystiolaeth ac a ddangosodd y rhaglenni a'r cymorth a ddarperir ganddynt i bobl â dyslecsia. Roedd manteision clir i'r holl wahanol fathau o gymorth. Cafodd y Grŵp Rapporteur ei galonogi gan y llythyron, yr e-byst a'r dystiolaeth bersonol a gyflwynwyd gan unigolion a rhieni plant a oedd wedi elwa ar bob un o'r gwahanol raglenni. Roedd aelodau'r grŵp hefyd yn deall rhwystredigaethau unigolion a rhieni a oedd yn ei chael yn anodd cael gwybodaeth am ba raglenni a pha ddulliau o gymorth a fyddai'n fwyaf llesol iddynt neu i'w plant.

**Argymhelliad 9**

**Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu prosiect annibynnol i ymchwilio i wahanol fathau o raglenni er mwyn ei gwneud hi'n haws gwybod pwy sy'n debygol o elwa o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael. Rhaid cynllunio'r astudiaeth ymchwil hon yn ofalus i gael canlyniadau awdurdodol ac i roi ystyriaeth briodol i agweddau moesegol. Dylid datblygu'r prosiect ar y cyd â Phwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad.**

**Dylid cynnwys y dulliau a ganlyn yn yr astudiaeth gwerthuso:**

- **rhaglenni sy'n seiliedig ar y gwahanol synhwyrau / symudiadau**

[40] Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2007, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=65365&ds=11/2007

- **cynlluniau darllen sy'n seiliedig ar y dull ffonig**
- **defnyddio lensys a throshaenau lliw (ar y cyd â phrofion gan orthoptydd rhag ofn bod problemau â'r golwg)**

**Os bydd amgylchiadau'r rhaglen Dore yn newid a bod Dore yn gallu ailddechrau gwasanaethau i gleientiaid newydd, dylid cynnwys y rhaglen Dore yn y prosiect ymchwil.**

Crëwyd argraff arbennig o dda ar y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia gan gynhyrchion cyfrifiadurol *Fast ForWord®* a'r profiad o ddefnyddio'r cynhyrchion hyn yn Ysgolion Breiniol Everett am y rhesymau a ganlyn:

- Gallai grŵp o tua 30 plentyn ddefnyddio cynhyrchion *Fast ForWord®* ar gyfrifiaduron unigol mewn un ystafell ddosbarth ar yr un pryd. Mae hon yn ffordd effeithiol ac effeithlon o ddarparu cymorth ar gyfer niferoedd uwch o blant â dyslecsia ar yr un pryd o'i gymharu â ffyrdd eraill;
- Mae un athro arbenigol hyfforddedig ar gael yn yr ystafell ddosbarth i gadw llygad ar hynt gwaith pob plentyn wrth iddynt ddefnyddio cynhyrchion *Fast ForWord®* ac i helpu os byddant yn cael unrhyw anawsterau;
- Gall pob plentyn ddefnyddio'r feddalwedd *Fast ForWord®* am 50 i 60 munud bob dydd yn yr ysgol am bum niwrnod yr wythnos;
- Mae cynhyrchion *Fast ForWord®* yn mynd yn fwy heriol wrth i blant wneud cynnydd;

- Mae’r ffaith bod y feddalwedd ar fformat gêm yn golygu ei bod yn hygyrch ac yn cynnal diddordeb y plentyn. Dywedodd plant Ysgolion Breiniol Everett wrth y Grŵp Rapporteur eu bod wedi mwynhau defnyddio’r feddalwedd; a
- Mae traciwr *Fast ForWord®* yn darparu gwybodaeth fanwl fel y gellir cadw llygad agos ar gynnydd pob plentyn.

**Argymhelliad 10**

**Mae’r Pwyllgor Menter a Dysgu yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu astudiaeth beilot statudol rymus sydd ar wahân i gynhyrchion *Fast ForWord®* er mwyn gwerthuso canlyniadau’r ymyrraeth hon yn annibynnol.**

## 10. Crynodeb o'r Argymhellion

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol Cymru gytuno ar ddiffiniad safonol o ddyslecsia er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru o ran sgrinio, asesu a darparu gwasanaethau ar gyfer dyslecsia a gaiff eu hariannu gan awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 2**

Clywodd y grŵp dystiolaeth sylweddol fod amseriad yr ymyrraeth i'w weld yn dyngedfennol a bod ymyrraeth gynnar yn fwy tebygol o lwyddo i godi safon plant sy'n cael anawsterau i'r un lefel â'u cyfoedion.

Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell bod profion sgrinio ar gyfer dyslecsia ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i bob plentyn ar ddechrau Blwyddyn 2 os yw'r athro neu'r athrawes yn nodi bod gan y plentyn hwnnw fwy o anawsterau darllen, sillafu neu ysgrifennu na'i gyfoedion.

Wedi hyn rhaid sicrhau cymorth ychwanegol ac ymyrraeth briodol ar gyfer y plant hynny y mae'r profion sgrinio'n dangos y gallent fod yn ddyslecsig erbyn diwedd Tymor y Nadolig ym Mlwyddyn 2.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu gwybodaeth fanwl gywir a swyddogol am nifer y plant ysgol sydd â dyslecsia; gan gynnwys data am nodweddion y rheini sydd â dyslecsia a data am hyd y

cyfnod y mae'n rhaid i blant unigol ei aros i gael apwyntiad i weld seicolegydd addysg.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r sefydliadau unigol yn ailasesu cynnwys cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon er mwyn gwella dealltwriaeth Athrawon dan Hyfforddiant o anghenion dysgu ychwanegol yn sylweddol. Dylid sicrhau bod hyn yn wir am bob cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Dylai pob athro dan hyfforddiant (ac nid y rheini sy'n hyfforddi i weithio mewn ysgol fabanod yn unig) gael hyfforddiant gorfodol a fydd yn eu galluogi i adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai pob athro dan hyfforddiant hefyd gael mwy o hyfforddiant gorfodol ar ddarparu cymorth i blant nad ydynt yn cyrraedd lefel gyfartalog eu carfan.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ailasesu'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer cynorthwywyr dosbarth, yn enwedig fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen, i blant ifanc ag anghenion addysg arbennig.

Dylid sicrhau bod dysgu'r sgiliau i gefnogi plant sy'n cael trafferth darllen ac ysgrifennu yn dod yn elfen orfodol o hyfforddiant cychwynnol cynorthwywyr dosbarth a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau

bod cynorthwywyr dosbarth yn meddu ar y sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddarparu’r cymorth hwn yn effeithiol.

**Argymhelliad 6**

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu’r hyfforddiant sydd ar gael i Gydlynwyr AAA o ran rhoi cymorth i blant â dyslecsia ac yn ariannu darpariaeth ychwanegol, yn ôl y galw, i sicrhau mwy o gysondeb yn arbenigedd Cydglynwyr AAA.

**Argymhelliad 7**

Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ystyried pa mor ymarferol fyddai rhoi hyfforddiant ôl-raddedig (lefel 4) i un athro ym mhob ysgol i gynorthwyo plant â dyslecsia a beth fyddai’r gost debygol o ddarparu hyn.

**Argymhelliad 8**

Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai profion sgrinio, profion asesu a chymorth fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn modd cyfartal ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i ateb y galw.

**Argymhelliad 9**

Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu prosiect annibynnol i ymchwilio i wahanol fathau o raglenni er mwyn ei gwneud hi'n haws gwybod pwy sy'n debygol o elwa o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael. Rhaid cynllunio'r astudiaeth ymchwil hon yn ofalus i gael canlyniadau awdurdodol ac i roi ystyriaeth briodol i agweddau moesegol. Dylid datblygu'r prosiect ar y cyd â Phwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad.

Dylid cynnwys y dulliau a ganlyn yn yr astudiaeth gwerthuso:

- rhaglenni sy'n seiliedig ar y gwahanol synhwyrau / symudiadau
- cynlluniau darllen sy'n seiliedig ar y dull ffonig
- defnyddio lensys a throshaenau lliw (ar y cyd â phrofion gan orthoptydd rhag ofn bod problemau â'r golwg)

Os bydd amgylchiadau'r rhaglen Dore yn newid a bod Dore yn gallu ailddechrau gwasanaethau i gleientiaid newydd, dylid cynnwys y rhaglen Dore yn y prosiect ymchwil.

**Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu astudiaeth beilot statudol rymus sydd ar wahân i gynhyrchion *Fast ForWord*® er mwyn gwerthuso canlyniadau'r ymyrraeth hwn yn annibynnol.

## Atodiad A: Gweithgareddau'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia

**Cyfarfodydd â:**

Michael Davies, Prosiect Dyslecsia Cymru

Jennifer Owen-Adams a Dr Ruth Gwernan Jones, Cymdeithas Dyslecsia Prydain yng Nghymru

Jacqui Brett a Dr Peter Harris, Dull Raviv

Jane Owens, Dyslexia Action Cymru

Huw Roberts, Yr Uned Dyslecsia, Prifysgol Bangor, ar secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dau gyfarfod ag oedolion/ plant dyslecsig a rhieni plant dyslecsig:

(a) cynhadledd fideo â Chanolfan Ymwelwyr y Cynulliad ym Mae Colwyn

(b) cyfarfod yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd

**Ymweliadau â:**

Canolfan Dore, Caerdydd: Nigel Maris, Bryan Allan a Scott Quinnell

Coleg Glannau Dyfrdwy: David B Jones, y Pennaeth a Carol Newsam, Rheolwr Rhanbarth Rhaglen Sgiliau Byw

British Dyslexics: Roy Fielding

Ysgol Bryn Coch, Sir y Fflint (ysgol gyfeillgar at ddyslecsia): Sue Bell Jones, Rheolwr Gwasanaethau Dysgu a thîm o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn dyslecsia

Arddangosiad o  Fast ForWord ®, John Kerins (Neuron Learning) a'r Athro Ian Creese (Athro Niwrowyddoniaeth, Prifysgol Rutgers, New Jersey, UDA).

Yr Uned Dyslecsia, Prifysgol Bangor: Ann Cooke a'i staff

Canolfan Aberconwy i Blant Dyslecsig (ymwelodd Janet Ryder â'r Ganolfan a ran y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia)

Everett Public Schools, ger Boston, Massachusetts: Peggy Blake, Cyfarwyddwr Director Everett Public Schools, John Kerins (Neuron Learning) a'r Athro Ian Creese (Athro Niwrowyddoniaeth, Prifysgol Rutgers, New Jersey, UDA).

Ysgol Feddygol Harvard, Cambridge, Massachusetts: Dr Joseph Martin (cyn Ddeon, Aelod o'r Bwrdd Dysgu Gwyddonol), Dr Nadine Gaab,

**Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, 7 Tachwedd 2007**

- Yr Athro David Reynolds, Prifysgol Plymouth,
- Yr Athro Angela Fawcett, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Plant, Prifysgol Abertawe
- Ann Cooke, Yr Uned Dyslecsia, Prifysgol Bangor
- Yr Athro John Stein, Prifysgol Rhydychen (tystiolaeth ysgrifenedig yn unig)

## Atodiad B: Gwefannau defnyddiol

Ymwadiad. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o wefannau sy'n gysylltiedig â dyslecsia; rhestr ydyw o'r gwefannau a gododd o waith y grŵp. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo unrhyw gwmni neu gynhyrchion unigol.

| | |
|---|---|
| BrainGym yn y Deyrnas Unedig | http://www.braingym.org.uk/ |
| Cymdeithas Dyslecsia Prydain | http://www.bdadyslexia.org.uk/index.html |
| British Dyslexics | http://www.dyslexia.uk.com/index.html |
| Canolfan Ymchwil Plant, Prifysgol Abertawe | http://www.swan.ac.uk/research/centresandinstitutes/CentreforChildResearch/ |
| Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd | Delivering Skills for Life: The national strategy for improving adult literacy and numeracy skills:<br><br>A Framework for Understanding Dyslexia<br>http://publications.teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/AFDD2MIG236.pdf |
| Rhaglen Dore | http://www.dore.co.uk/<br>http://www.doresport.com/ |
| Dyslexia Action Cymru | http://www.dyslexiaaction.org.uk/default.aspx<br>http://www.dyslexiaaction.org.uk/Page.aspx?PageId=142 |
| Dyslexia Research Trust (Yr Athro John Stein) | http://www.dyslexic.org.uk/ |
| Yr Uned Dyslecsia, Prifysgol Bangor | http://www.dyslexia.bangor.ac.uk/ |

| | |
|---|---|
| Dyslecsia Cymru | http://www.dyslexia-wales.co.uk/ |
| *Every Child a Reader* | http://www.everychildareader.org/ |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Cyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu, 7 Tachwedd 2007, Y cymorth sydd ar gael i bobl â dyslecsia yng Nghymru (Agenda, Papurau a Thrawsgrifiadau)<br>http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?ds=11%2F2007&submit=Submit<br>Adroddiad Dros Dro'r Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia'r Pwyllgor Menter a Dysgu<br>http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid/cr-ld6908-e.pdf?langoption=3&ttl=CR-LD6908%20-%20Report%20of%20the%20Enterprise%20and%20Learning%20Committee%20-%20%20Interim%20Report%20of%20the%20Dyslexia%20Rapporteur%20Group |
| Neuron Learning | http://www.neuron-learning.co.uk/home.htm |
| (meddalwedd Fast ForWord)<br>Scientific Learning | http://www.scilearn.com/ |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Adroddiad: Arfer Da Mewn Cyllid Anghenion Addysgol Arbennig, Hydref 2006<br>http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/403829/wao-good-prac-special-needs1.pdf?lang=en |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru<br>http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/127044211-wag/?lang=en |
| Prosiect Dyslecsia Cymru | http://www.welshdyslexia.info/ |

## Atodiad C: Y polisi yn Lloegr

Ym mis Rhagfyr 2006, cyhoeddodd yr Adran Plant, Ysgolion a  Theuluoedd y byddai'r fenter *Every Child a Reader*  yn cael ei chyflwyno'n raddol yn genedlaethol, ac y byddai 30,000 o blant yn Lloegr yn elwa ohono o 2010-11 ymlaen. Menter gydweithredol rhwng ymddiriedolaethau elusennol, y sector busnes a'r llywodraeth yw *Every Child a Reader*. Mae'r fenter yn ariannu athrawon *Reading Recovery* mewn ysgolion canol dinas, er mwyn rhoi cymorth dwys i'r plant mwyaf anghenus.

Dechreuir cyflwyno'r fenter ym mis Medi 2008, a chaiff ei rheoli gan y llywodraeth drwy'r Strategaeth Gynradd Genedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cenedlaethol  *Reading Recovery* yn Athrofa Addysg Prifysgol Llundain*.* Bydd y noddwyr elusennol, a helpodd i sefydlu'r rhaglen, yn parhau i fod â rhan bwysig yn y rhaglen.

Cadarnhawyd y polisi yn *The Children's Plan, Building Brighter Futures (tudalen 11),*[41] pan gyhoeddodd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd y byddent yn:

- gwario £18 miliwn dros y tair blynedd nesaf i wella safon dysgu plant ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys:
- gwell hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon;
- gwell data i ysgolion yn ymwneud â chynnydd plant ag anghenion addysgol arbennig; a

[41] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, *The Children's Plan, Building Brighter Futures,*

- chynllun peilot lle bydd plant dyslecsig yn cael cymorth *Reading Recovery* neu hyfforddiant un i un gan athrawon sy'n arbenigo mewn dyslecsia.

ac (ar dudalen 79):

> Fel y cyhoeddwyd yn ddiweddar, byddwn hefyd yn rhoi cyllid ychwanegol i Gymdeithas Dyslecsia Prydain i'w galluogi i roi gwybodaeth a chyngor i athrawon a rhieni ynglŷn ag arfer da o ran adnabod a chynorthwyo plant dyslecsig.

Mae gwybodaeth am gynlluniau peilot *Reading Recovery* a chynllun *Every Child a Reader Scheme* ar gael mewn datganiad i'r wasg gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd :

http://www.dcsf.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2008_0086

a gwefan *Every Child a Reader*:

http://www.everychildareader.org.uk/index.cfm

## Atodiad D: Grŵp Cyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Anawsterau Dysgu Penodol

Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Allanol ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys dyslecsia) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2008. Mae'r aelodau'n cynnwys rhanddeiliaid o Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â phobl broffesiynol eraill sy'n arbenigo yn y maes.

Fel sylfaen i waith y Grŵp Cyfeirio, anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru holiadur at bob Awdurdod Addysg Lleol yn gofyn am wybodaeth am wasanaeth i blant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu penodol. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw defnyddio canlyniadau'r holiaduron i ddatblygu canllawiau i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu penodol.

Cyfarfu Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia'r Pwyllgor Menter a Dysgu â'r swyddog perthnasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y Grŵp Cyfeirio i sicrhau bod gwaith y ddau grŵp yn gymharus.

## Atodiad E: Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Ddyslecsia[42]

Mae'r grŵp yn cynnwys 6 Aelod o Senedd yr Alban a dros 50 o aelodau sydd â diddordeb yn y maes ond nad ydynt yn Aelodau o Senedd yr Alban. Cyfarfu'r grŵp llawn ym mis Medi a mis Rhagfyr 2007, a hefyd ym mis Ionawr a mis Ebrill 2008. Mae'r grŵp wedi trafod llawer o'r un materion â Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia'r Cynulliad er enghraifft, ddiffinio dyslecsia, sgrinio, adnabod dyslecsia'n gynnar, cyd-forbeidrwydd, cymorth yng nghyfnod y blynyddoedd cynnar, anghenion hyfforddiant, adnoddau a rôl TGCh. Ymchwiliwyd yn drylwyr i rai o'r materion hyn gan is-grwpiau ar ran grŵp trawsbleidiol Senedd yr Alban.

**Diben y Grŵp**

Dyma amcanion y grŵp:

- codi ymwybyddiaeth o ddyslecsia,
- hyrwyddo arfer da ym maes addysg ac yn y gweithle,
- rhoi cymorth i deuluoedd y mae dyslecsia'n effeithio arnynt.

Yn ôl eu gwefan, bydd y grŵp yn parhau i alw am sefydlu system drylwyr, dryloyw o sicrhau atebolrwydd o ran darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion ychwanegol dysgwyr dyslecsig sy'n hygyrch ac yn hawdd i rieni a phobl ifanc ei deall, ac yn parhau i alw am hyfforddiant priodol i bob athro ac athrawes a fydd yn eu galluogi i gyflwyno cwricwlwm priodol a hygyrch i bob disgybl dyslecsig, er mwyn iddynt hwythau fedru datblygu'n ddysgwyr

[42] Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Senedd yr Alban: http://www.scottish.parliament.uk/msp/crossPartyGroups/groups/cpg-dyslexia.htm

llwyddiannus, yn unigolion hyderus, yn ddinasyddion cyfrifol ac yn gyfranwyr effeithiol.